CYDBWYLLGOR LLYWODRAETHU PARTNERIAETH PENSIWN CYMRU

Dydd Mawrth, 25 Medi 2018

PRESENNOL:- Y Cyng. Peter Lewis (Is-Gadeirydd)

Y Cynghorwyr:

Cyng. G. Caron, Cyng. D. Hughes, Cyng. C. Lloyd, Cyng. J.Pugh Roberts, Cyng. R. Smith (yn lle'r Cyng. M. Norris), Cyng. C. Weaver and D.E. Williams

Yr oedd y swyddogion canlynol yn gwasanaethu yn y cyfarfod:
C. Moore, Swyddog R151 y Pwyllgor (CSC)
L.R. Jones, Swyddog Monitro y Pwyllgor (CSC)
J. Dong, Swyddog Technegol a'r Trysorlys (D&SA)
D. Edwards, Cyfarwyddwr Cyllid (CSG)
C. Salter, Cyfarwyddwr Corfforaethol Adnoddau (D&SC)
C. Lee, Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol a'r Rheng Flaen (CBSRCT)
A. Parnell, Rheolwr Pensiwn a Buddsodiadau Gyllidol (CSC)
D. Powell, Prif Weithredwr dros dro (CSP)
D. Fielder, Rheolwr Cyllid Pensiynau (CSF)
K. Davies, Pennaeth Pesiynau Corfforaethol (D&SA)
G. Morgan, Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd (CSC)

Hefyd yn bresennol:-
Denise Jones- Link Asset Services
Peter Hugh Smith, Link Asset Services
Sasha Mandich, Russell Investments
Jim Leggate, Russell Investments
Eamonn Gough, Link Asset Services
Duncan Lowman, Link Asset Services
Paul Potter, Hymans Robertson

Siambr Dafydd Orwig, - Cyngor Sir Gwynedd, Swyddfeydd y Cyngor, Caernarfon, Gwynedd, LL55 1SH - 10.00 - 11.00 am

1. YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB

Derbyniwyd ymddiheuriad am absenoldeb gan Gynghorydd y Cydbwyllgor, y Cynghorydd Mark Norris, o Gyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf.

Derbyniwyd ymddiheuriadau hefyd gan Nigel Aurelius o Gyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen a Philip Latham o Gyngor Sir y Fflint.

2. Datganiadau o fuddiant

Cynghorydd	**Natur y Buddiant Personol**
G. Caron	Aelod o Gronfa Bensiwn Gwent Fwyaf

	Ei wraig yn Aelod Gohiriedig o Gronfa Bensiwn Gwent Fwyaf
D. Hughes	Aelod o Gronfa Bensiwn Clwyd;
P Lewis	Aelod o Gronfa Bensiwn Powys;
C. Lloyd	Aelod o Gronfa Bensiwn Dinas a Sir Abertawe;
R. Smith	Aelod o Gronfa Bensiwn Rhondda Cynon Taf;
J. Pugh Roberts	Aelod o Gronfa Bensiwn Gwynedd;
E. Williams	Aelod o Gronfa Bensiwn Dyfed.

(Noder: Mae eithriad yng Nghod Ymddygiad Aelodau sy'n galluogi i aelod sydd wedi'i benodi neu'i enwebu i gorff perthnasol gan ei awdurdod ddatgan y budd hwnnw ond aros a chymryd rhan yn y cyfarfod).

3. LLOFNODI YN COFNOD CYWIR COFNODION Y CYFARFOD A GYNHALIWYD AR Y 11EG MEHEFIN 2018

Dywedodd y Cadeirydd fod yna un cywiriad i'r cofnodion gan nad oedd y Cynghorydd C. Weaver yn aelod o Gronfa Bensiwn llywodraeth leol. Cadarnhaodd y Cynghorydd Weaver fod hyn yn gywir.

PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL llofnodi cofnodion y cyfarfod o'r Pwyllgor a gynhaliwyd ar 11 Mehefin fel rhai cywir, yn amodol ar yr addasiad uchod.

4. CYFLWYNIAD GAN LINK AR CERRIG MILLTIR A DIWEDDARIAD CYNNYDD

Croesawyd Denise Jones - Pennaeth Rheoli Newid yn Link Asset Services gan y Cadeirydd a rhoddodd gyflwyniad ar y Prif Gerrig Milltir a'r cynnydd ynghylch Partneriaeth Pensiwn Cymru.

Darparodd Ms Jones restr lawn i'r Cydbwyllgor o'r dyddiadau posib ar gyfer y prif gerrig milltir, y cynnydd hyd yn hyn ar Gronfeydd Cychwynnol (Ecwiti Byd-eang) *Tranche* 2 (y DU ac Ecwiti Ewropeaidd) a'r camau nesaf.

Dywedodd Ms Jones fod Link ar hyn o bryd yn gweithio trwy'r templedi adrodd a bod y Gweithgor Swyddogion wedi ystyried pecyn sampl ym mis Gorffennaf, gobeithiwyd felly y byddai modd cytuno ar y pecyn cyn hir i fod yn barod ar gyfer lansiad y gronfa gyntaf.

Rhoddodd Ms Jones wybod i'r Cydbwyllgor fod Cytundebau'r Rheolwyr Buddsoddi ar y gweill a gobeithiwyd y byddai'r holl gytundebau wedi cael eu llofnodi erbyn diwedd mis Medi 2018.

O ran yr Is-gronfa Ecwiti Byd-eang, roedd Link yn parhau i dargedu canol mis Tachwedd 2018 ar gyfer lansio'r ddwy gronfa gyntaf a gobeithiwyd y byddai modd llunio cytundeb o fewn Eitem 6 y Rhaglen ar gyfer cronfeydd Tranche 2 - Ecwiti'r DU ac Ewrop, a chymeradwyo ychwanegiadau atodlen 5 i brosbectws y gronfa erbyn 5 Hydref.

O ran Penodi Rheolwyr Trawsffurfio ar gyfer y ddwy gronfa gyntaf (Ecwiti Byd-eang), roedd pob bid wedi'i gyflwyno a'r broses werthuso gychwynnol wedi'i chynnal, roedd y swyddogion wedi'u hadolygu a disgwylid cymeradwyaeth terfynol yn yr wythnos nesaf.

O ran y cynnydd hyd yn hyn, rhoddwyd gwybod i'r Cydbwyllgor:-

- Derbyniwyd cymeradwyaeth yr Awdurdod Ymddygiad Ariannol (FCA) ar gyfer yr arian cychwynnol ar 24 Gorffennaf;
- Cynhaliwyd diwrnod ymgysylltu Rheolwyr Cychwynnol ar 5 Medi gyda'r 3 Rheolwr Twf Byd-eang a'r 3 Rheolwr Cyfleoedd Byd-eang yn mynychu, byddai 4 rheolwr arall yn cyfarfod â'r Cydbwyllgor yn ddiweddarach y bore hwnnw
- Roedd trafodaethau ynghylch contractau wedi dechrau gyda Northern Trust ar gyfer y cytundeb adneuo, yn unol â'r adroddiad ac roedd y copi gweithredu i fod i gael ei gwblhau yn ddiweddarach yn yr wythnos.
- Roedd Link wedi adolygu'r cytundeb Gweinyddol ac wedi bwydo sylwadau cychwynnol i Northern Trust.
- Roedd llythyrau ymgysylltu yn eu lle ar gyfer ymgynghorwyr Archwilio, Cyfreithiol a Threthi.

O ran Tranche 2, roedd Link wedi ystyried ecwiti'r DU ac Ewrop, ac roedd y cynigion ar gyfer y gronfa wedi cael eu cytuno gydag awdurdodau lleol Caerdydd a Thorfaen, gydag ychwanegiadau atodlen 5 wedi'u cwblhau a'u cyflwyno i'r Swyddogion eu hadolygu ac yna i'w cymeradwyo ar gyfer eu cyflwyno i FCA gyda'r bwriad o'u lansio ganol mis Ionawr 2019. Gobeithiwyd y byddai'r Rheolwyr Trawsnewid yn cael eu penodi erbyn 11 Hydref 2018. Roedd gwaith hefyd wedi dechrau ar y cynigion incwm sefydlog a gobeithiwyd y byddant yn cael eu cytuno ym mis Tachwedd 2018 er mwyn i'r gwaith ddechrau ar drydydd cyflwyniad i'r FCA.

Cyfeiriwyd at y prif gerrig milltir a'r dyddiadau yn yr adroddiad, a gofynnwyd am eglurhad o ran y broses o benodi'r Rheolwr Trawsnewid. Dywedodd Swyddog A151 y Cydbwyllgor y byddai angen i bob awdurdod unigol benodi Rheolwr Trawsnewid, a phroses benodi yr Awdurdod hwnnw fyddai'n cael ei defnyddio.

Mewn ymateb i gwestiwn, dywedodd Ms Jones y byddai penodiad Rheolwyr Twf Byd-eang a Chyfleoedd Byd-eang yn amodol ar berfformiad ar y *tranche* cyntaf, ac felly nid oedd sicrwydd y byddai'r un rheolwyr yn cael eu penodi i'r gwahanol gronfeydd.

Rhoddodd Mr Anthony Parnell y diweddariad a ganlyn i'r Pwyllgor ar gyfrifoldebau'r awdurdod lletya:-

- Staffio - yn dilyn problem adnoddau, roedd yr Awdurdod Lletya ar hyn o bryd yn cynnal proses recriwtio o ran Swyddog Partneriaeth Pensiwn Cymru a gobeithiwyd y gellid penodi yn y misoedd nesaf.

- O ran cyfathrebu, roedd y pecyn adrodd cyntaf wedi cael ei lunio ac roedd trafodaethau'n mynd rhagddynt gyda Phartneriaeth Pensiwn arall i weld a ellid cytuno ar ddull gweithredu cyson ar gyfer adrodd yn ôl. Hefyd, roedd gofyn i'r Bartneriaeth ddarparu adroddiad cynnydd i'r Weinyddiaeth Dai, Cymunedau a Llywodraeth Leol pob tymor, byddai adroddiad yr hydref yn cael ei ddrafftio'n fuan mewn ymgynghoriad â Hymans Robertson, ac yn dilyn ymgynghoriad gyda'r Gweithgor Swyddogion, byddai'r adroddiad cynnydd yn cael ei ddosbarthu ar gyfer ei gymeradwyo gan y Cydbwyllgor ar e-bost.
- Llywodraethu - Roedd Gweithgorau Swyddogion yn parhau i gyfarfod yn rheolaidd, roedd y prosbectysau wedi cael eu cymeradwyo ac roedd trefniadau'r Cydbwyllgor yn gweithio'n dda ac yn cymharu'n dda â chronfeydd pensiwn eraill cyffelyb. Roedd y gwaith ar ddatblygu'r wefan yn mynd rhagddo. Roedd y trefniadau adrodd yn parhau i gael eu datblygu yn unol ag argymhellion CIPFA a disgwyliadau'r Llywodraeth.

Dymunai'r Cadeirydd longyfarch y Bartneriaeth ar ei llwyddiant diweddar wrth gael canmoliaeth uchel yn y categori *'Pool of the Year'* yng Ngwobrau Buddsoddi LAPF 2018 a gynhaliwyd yng ngwesty'r Savoy yn Llundain, ddydd Iau 20 Medi, 2018.

Hysbysodd Swyddog Adran 151 y Pwyllgor fod cais wedi'i dderbyn gan y Gweinidog dros Dai, Cymunedau a Llywodraeth Leol i gyfarfod â Chadeirydd y Pwyllgor a swyddogion i drafod cynigion isadeiledd posib y Cydbwyllgor, ac y byddai'r cyfarfod hwn yn cael ei gynnal yn fuan.

PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL y byddai'r pwyllgor yn derbyn cyflwyniad gan Link a'r Awdurdod Lletya ar y cerrig milltir ynghyd â'r diweddaraf o ran cynnydd.

5. GORCHYMYN I'R CYHOEDD ADAEL Y CYFARFOD

PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL, yn unol â Deddf Llywodraeth Leol 1972, fel y'i diwygiwyd gan Orchymyn Llywodraeth Leol (Mynediad at Wybodaeth) (Amrywiad) (Cymru) 2007 - gwahardd y cyhoedd o'r cyfarfod yn ystod yr eitem a ganlyn gan fod yr adroddiad yn cynnwys gwybodaeth eithriedig, fel y'i diffiniwyd ym mharagraff 14, Rhan 4, Atodlen 12A y Ddeddf.

6. CYFLWYNIAD GAN LINK / RUSSELL AR IS-GRONFEYDD ECWITI Y DU A EWROPEAIDD

Yn dilyn y cais prawf budd y cyhoedd, PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL, yn unol â'r Ddeddf y cyfeirir ati yng nghofnod 5 uchod, y dylid ystyried y mater hwn yn breifat ac y dylid gwahardd y cyhoedd o'r cyfarfod ar sail bod y wybodaeth a drafodir yn yr adroddiad yn cynnwys manylion cyfleoedd buddsoddi nad oedd wedi'u trafod yn llwyr na'u hail-negodi eto, ac y byddai datgelu'r cyflwyniad yn niweidio'r trafodaethau ac yn cael effaith ar gostau a dychweliadau'r Cronfeydd.

Croesawodd y Pwyllgor Peter Hugh Smith - Rheolwr Gyfarwyddwr Link Asset Services, a Sasha Mandich - Cyfarwyddwr, Russell Investments i'r cyfarfod.

Derbyniodd y Pwyllgor gyflwyniad ar strwythur y ddwy gronfa ecwiti ranbarthol sef *UK* ac *Europe ex-UK*, ac ystyriwyd argymhellion ar gyfer y cronfeydd hynny.

Cafodd aelodau'r Pwyllgor gyfle i ofyn cwestiynau am y cronfeydd, gan gynnwys perfformiad y cronfeydd, arallgyfeirio ffurfiau buddsoddi, sut yr oedd y cyllid yn cael ei rannu rhwng y ddwy is-gronfa, newidiadau/trosiant staff y rheolwr cronfa, a'r broses ar gyfer buddsoddi / tynnu yn ôl.

PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL:-

1. **Y byddai'r cyflwyniad yn cael ei nodi.**

2. **Buddsoddi mewn dwy is-gronfa wahanol i gyflawni arallgyfeirio effeithiol, ac i gyflogi pum rheolwr arbenigol i bob cronfa, sef:-**

    - **UK – Majedie, Lazard Omega, Baillie Gifford, Investec a Liontrust.**

    - ***Europe ex-UK* - Blackrock, Pzena, Invesco, SW Mitchell a Liontrust.**

3. **Lleihau costau masnachu trwy ddefnyddio dull 'uwch weithredu', fyddai'n golygu gosod masnachau rheolwyr sy'n gorgyffwrdd yn erbyn ei gilydd yn hytrach na rhoi cyfarwyddyd i bob rheolwr fasnachu ar wahân gyda'u broceriaid eu hunain.**

_____ _____

CADEIRYDD **DYDDIAD**